# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Mai 2017 i'w hateb ar 23 Mai 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro dros y 12 mis nesaf? OAQ(5)0610(FM)

**2. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i economi Gogledd Cymru? OAQ(5)0611(FM)

**3. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** Faint o arian cyhoeddus a gafodd ei fuddsoddi yn rhwydwaith rheilffordd Cymru a'r Gororau yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? OAQ(5)0613(FM)**R**

**4. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran trafnidiaeth integredig yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0614(FM)

**5. Michelle Brown (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd canlyniad etholiad cyffredinol y DU yn ei chael ar bolisïau Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0622(FM)

**6. Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd Blwyddyn Chwedlau o fudd i ogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0617(FM)

**7. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau meddygol meddygon teulu yn Sir Drefaldwyn? OAQ(5)0621(FM)

**8. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo llesiant staff yn sector cyhoeddus Cymru? OAQ(5)0615(FM)

**9. Nathan Gill (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fargen dwf Gogledd Cymru? OAQ(5)0612(FM)

**10. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau economaidd ar gyfer de-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0616(FM)

**11.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyfradd treth incwm y mae'r Prif Weinidog yn disgwyl i bobl yng Nghymru sy'n ennill dros £80,000 y flwyddyn ei thalu o fis Ebrill 2019 ymlaen? OAQ(5)0619(FM)**W**

**12.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y broses o asesu cynigion ar gyfer gorsafoedd trenau newydd yng Nghymru? OAQ(5)0620(FM)

**13.** **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa ddatblygiadau a fu i wireddu bwriad y Prif Weinidog i sefydlu confensiwn cyfansoddiadol ar ddyfodol y DU wrth iddi ymadael â'r UE? OAQ(5)0168(FM)**W**